O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 1487 (Cy. 186)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48 ac A483 a Thraffordd yr M4 (Hendy i Cross Hands, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

Gwnaed	*1 Mehefin 2012*
Yn dod i rym	*11 Mehefin 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A48), Cefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd") a Thraffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall **(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r gorchymyn hwn i rym ar 11 Mehefin 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48 ac A483 a Thraffordd yr M4 (Hendy i Cross Hands, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle"*) yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 00:01 o'r gloch ar 11 Mehefin 2012 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" *("the lengths of the trunk roads")* yw'r darnau hynny o gefnffyrdd yr A48

a’r A483 yn Sir Gaerfyrddin a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i’r Gorchymyn hwn;

ystyr “y darnau o’r draffordd” *(“the lengths of the motorway”)* yw’r darnau hynny o Draffordd yr M4 yn Sir Gaerfyrddin a bennir yn Atodlen 3 i’r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ac eithrio cerbyd esempt, ar hyd y darnau o’r cefnffyrdd a’r draffordd a bennir yn yr Atodlenni i’r Gorchymyn hwn.

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dynodi bod y gwaharddiad y cyfeirir ato yn yr erthygl honno yn weithredol.

5. Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 18 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 1 Mehefin 2012

G R Morgan
G MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy o ran Cymru gan Weinidogion Cymru.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

CEFNFFORDD YR A48

i. Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua’r dwyrain sy’n ymestyn o bwynt yn ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Cross Hands hyd at bwynt yn ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Pont Abraham.

ii. Hyd cyfan y slipffordd ymuno tua’r dwyrain yng Nghyffordd Parc Busnes Cross Hands.

iii. Y darn hwnnw o hanner dwyreiniol cerbytffordd gylchredol Cylchfan Pont Abraham sy'n ymestyn o bwynt yn ei chyffordd â cherbytffordd yr A48 tua'r gorllewin hyd at bwynt yn ei chyffordd â cherbytffordd yr M4 tua'r gorllewin.

iv. Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt yn ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Pont Abraham hyd at bwynt yn nhrwyniad ffisegol y slipffordd ymuno tua'r gorllewin yng Nghyffordd Parc Busnes Cross Hands.

v. Y darn hwnnw o hanner gorllewinol cerbytffordd gylchredol Cylchfan Pont Abraham sy'n ymestyn o bwynt yn ei chyffordd â cherbytffordd yr M4 tua'r dwyrain hyd at bwynt yn ei chyffordd â cherbytffordd yr A48 tua'r gorllewin.

ATODLEN 2

CEFNFFORDD YR A483

Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r de sy'n ymestyn o bwynt yn ei chyffordd â'r B4297, Cyffordd Fforest, hyd at bwynt yn ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Pont Abraham (yr A48).

ATODLEN 3

TRAFFORDD YR M4

i. Y darn hwnnw o gerbytffordd y draffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt yn ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Pont Abraham (yr A48), hyd at bwynt yn ei chyffordd â thrwyniad ffisegol y slipffordd ymuno tua'r dwyrain yng Nghyffordd 48, Hendy.

ii. Y darn hwnnw o gerbytffordd y draffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt yn nhrwyniad ffisegol y slipffordd ymadael tua'r gorllewin yng Nghyffordd 48, Hendy, hyd at bwynt yn ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Pont Abraham (yr A48).

iii. Hyd cyfan y slipffordd ymuno tua'r gorllewin yng Nghyffordd 48, Hendy.